**PAPURAU BUSNES**

**Rhan 1 – Adran F**

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Tachwedd 2000 i’w hateb ar 12 Rhagfyr 2000**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda Changhellor y Trysorlys ynghylch effeithiau ei bolisi treth ar Gymru. (OAQ8397)

**2. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa sicrwydd y gall ei roi y bydd modd i’r Cynulliad Cenedlaethol ddylanwadu’n bositif ar flaenraglen ddeddfwriaethol llywodraeth y DU. (OAQ8412)

**3. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Sut mae’n monitro effeithiolrwydd y cabinet ar ei newydd wedd. (OAQ8413)

**4. Helen Mary Jones (Llanelli);** A yw wedi dechrau trefnu’r comisiwn annibynnol ar bwerau a threfniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ8411)

**5. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar effaith Araith y Frenhines ar Gymru. (OAQ8422) [W]

**6. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A wnaiff roi adroddiad ar gynnydd y gwaith o ail-frandio Cymru. (OAQ8400)

**7. Brian Gibbons (Aberafan);** A yw wedi trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru oblygiadau methiant ocsiwn llywodraeth y DU i werthu masnachfreintiau radio band llydan i ddod o hyd i brynwr ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru. (OAQ8419)

**8. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A yw wedi trafod Rhaglen Waith Flynyddol y Llywodraeth gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. (OAQ8407)

**9. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cau is-swyddfeydd post yng Nghymru. (OAQ8404)

**10. Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau a gafodd gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch cynlluniau i roi statws dinas i drefi yng Nghymru. (OAQ8406)

**11. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa ystyriaeth a roddwyd i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer rhoi'r addewidion a wnaed yn y Cytundeb Partneriaeth ar waith. (OAQ8416) **TYNNWYD YN OL**

**12. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar flaenraglen waith y weinyddiaeth ar gyfer 2000-01 fel y'i cyhoeddwyd ar 21 Tachwedd. (OAQ8399)**TYNNWYD YN OL**

**13. David Davies (Mynwy);** Beth mae'r Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod polisïau'n cael eu cyd-drefnu ar gyfer darparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl Cymru ar lefel leol. (OAQ8401)

**14. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ddatblygiad Polisi Ewropeaidd y Cynulliad. (OAQ8402)

**15. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y gwaith o roi rhaglen *Rhoi Cymru'n Gyntaf* ar waith. (OAQ8398)**TYNNWYD YN OL**

**16. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa drafodaethau a gafodd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyflwyno deddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru yn rhaglen ddeddfwriaethol llywodraeth y Deyrnas Unedig. (OAQ8614)**TYNNWYD YN OL**

**17. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch cynrychiolaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Cabinet. (OAQ8424)

**18. Brian Hancock (Islwyn);** Sut mae'n bwriadu sicrhau perthynas fwy agored ac atebol rhwng Cabinet y Cynulliad a phobl Cymru. (OAQ8410)**TYNNWYD YN OL**

**19. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar gyfraniad Cymru tuag at ddatblygu polisi ynghylch newid yn yr hinsawdd ar lefel Ewropeaidd. (OAQ8425)**TYNNWYD YN OL**

**20.Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y rheswm dros hepgor yr addewid i gael diwrnod o wyliau cyhoeddus yng Nghymru ar Ddydd Gyl Dewi o raglen flynyddol y llywodraeth. (OAQ8408) [W]**TYNNWYD YN OL**

**21.Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar y modd y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â Gogledd Cymru ers ffurfio'r Cabinet Partneriaeth. (OAQ8418) **TYNNWYD YN OL**

**22.Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar y datblygiadau sy'n effeithio ar Gymru o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan Gyngor y Gweinidogion. (OAQ8423) **TYNNWYD YN OL**

**23.Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff ddatganiad ar oblygiadau ehangu'r Undeb Ewropeaidd i Gymru. (OAQ8405) [R]

**24.Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Yn ei rôl fel cydlynydd datblygu polisi, pa drafodaethau a gafodd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch mynd i'r afael â hiliaeth yng Nghymru. (OAQ8420)**TYNNWYD YN OL**

**25.Alison Halford (Delyn);** A wnaiff ddatganiad ar y nifer cyfyngedig o Fusnesau Preifat sydd ar gael i ateb anghenion contractol y Cynulliad. (OAQ8421)

**26.Geraint Davies (Rhondda);** Pa asesiadau y mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud hyd yma o Gabinet newydd y Cynulliad. (OAQ8415)**TYNNWYD YN OL**

**27.Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad ar gyflwyno 'Protocol ar yr Hawl i Weld Gwybodaeth' erbyn diwedd 2000. (OAQ8409)**TYNNWYD YN OL**

**28.Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa drafodaethau y mae wedi eu cael gyda Dirprwy Brif Weinidog y DU ynghylch canlyniad y Gynhadledd ar Newid Hinsawdd yn yr Hâg. (OAQ8403)

**29.Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa ddulliau sydd mewn grym i fesur hynt a chyflawniad yr amcanion a nodir yn Rhaglen Waith Flynyddol y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn. (OAQ8417) [W]